

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir
Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20
mya Llawnamser a Rhan-amser)
2017

The A483 Trunk Road (Rhosmaen
Street, Llandeilo, Carmarthenshire)
(Full & Part-Time 20 mph Speed
Limit) Order 2017

Gwnaed 10 Ionawr 2017

Made 10 January 2017

Yn dod i rym 12 Ionawr 2017

Coming into force 12 January 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Swansea - Manchester Trunk Road (A483) (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (“the 1984 Act”) and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2017. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20 mya Llawnamser a Rhan-amser) 2017.

1. This Order comes into force on 12 January 2017. Its title is The A483 Trunk Road (Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Full & Part-Time 20 mph Speed Limit) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the 1984 Act(2);

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Ddraoleiddio 2015 (p. 20).

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaeth erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y mae'n cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Ionawr 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and are being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“the lengths of the trunk road” (“y darnau o'r gefnffordd”) means those lengths of the trunk road at Llandeilo in Carmathenshire specified in the Schedules to this Order;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

Restriction

3. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1.

4. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2.

Application

5. The provision of article 4 applies only during such times and to such extent as the application of the restriction referred to therein is indicated by means of traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

10 January 2017

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 20 MYA Llawnamser

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn y Llan hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 20 MYA Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd hyd at bwynt 78 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Orsaf.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO, SIR GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER 20 MYA LLAWNAMSER A RHAN-AMSER) 2017

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1), 1(A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 12 Ionawr 2017.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya hefyd yn cael ei osod ar y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol Gymraeg Teilo Sant ac Ysgol Gynradd Llandeilo yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol y disgwylir i'r terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya fod yn gymwys a bydd y terfyn cyflymder 30 mya presennol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 10 Ionawr 2017, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llandeilo, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1271908.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Full-Time 20 MPH Speed Limit

The length of the trunk road known as Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire that extends from a point 105 metres north of the centre-point of its junction with Church Street to a point 30 metres north east of the centre-point of its junction with New Road.

SCHEDULE 2

Part-Time 20 MPH Speed Limit

The length of the trunk road known as Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire that extends from a point 30 metres north east of the centre-point of its junction with New Road to a point 78 metres south of the centre-point of its junction with Station Road.

THE A483 TRUNK ROAD (RHOSMAEN STREET, LLANDEILO, CARMARTHENSIRE) (FULL & PART-TIME 20 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2017

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), 1(A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 12 January 2017.

The effect of the Order will be to impose a 20 mph speed limit on the length of the A483 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. A part-time 20 mph speed limit will also be imposed on the length of the A483 trunk road described in Schedule 2 to this Notice in order to minimise the likelihood of danger to the public in connection with pedestrian movements near Ysgol Gymraeg Teilo Sant and Ysgol Gynradd Llandeilo Primary School at Llandeilo, Carmarthenshire. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time and at all other times the existing 30 mph speed limit will remain in force.

During a period of 6 weeks from 10 January 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Llandeilo Library, Crescent Road, Llandeilo SA19 6HN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1271908.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales

(Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 20 MYA Llawnamser

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn y Llan hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 20 MYA Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd Rhosmaen sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Newydd hyd at bwynt 78 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Orsaf.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Full-Time 20 MPH Speed Limit

The length of the trunk road known as Rhosmaen Street that extends from a point 105 metres north of the centre-point of its junction with Church Street to a point 30 metres north east of the centre-point of its junction with New Road.

SCHEDULE 2

Part-Time 20 MPH Speed Limit

The length of the trunk road known as Rhosmaen Street that extends from a point 30 metres north east of the centre-point of its junction with New Road to a point 78 metres south of the centre-point of its junction with Station Road.